Jane Hutt AC/AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig Iedled Cymru

Mawrth 2020

Annwyl gyfeillion,

Yn y cyfnod ansicr hwn, nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen, hoffwn ddiolch i chi am bopeth sy'n cael ei wneud gennych i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein wynebu wrth geisio atal lledaeniad Covid 19 a'r gefnogaeth a'r arweiniad yr ydych yn ei roi i'n cymunedau.

Diolch yn fawr am bopeth yr ydych wedi'i wneud i gymryd camau rhagweithiol a chyflym i sicrhau bod pawb yn dilyn y cyngor iechyd cyhoeddus a chyngor y llywodraeth.

Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth a'r cymorth y mae Fforwm Hil Cymru, a grwpiau cymunedol eraill, yn ei roi i Lywodraeth Cymru. Bydd ein perthynas gref yn parhau i fod o fudd i ni a'n cymunedau dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad â chi ac mae dulliau yn eu lle i gael yr wybodaeth yr ydych yn ei rannu â nhw am unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg. Bydd hyn, yn ei dro yn cael ei ystyried yn y penderfyniadau a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n help i ni hefyd gael gwybod am unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd, neu am unrhyw ganllawiau a chyngor a roddir yn eich cymunedau. Byddwn innau a'm swyddogion yn gwerthfawrogi gweld unrhyw wybodaeth sydd wedi cael ei rannu gennych hyd yn hyn. Drwy sicrhau system gyfathrebu dda, bydd modd i ni rannu'r wybodaeth â'r cyngor yn gyflym. Gellir anfon gwybodaeth a sylwadau sy'n ymwneud â'r cymunedau rydych chi'n eu cynrychioli, ac yn gweithio gyda hwy, at y Pennaeth Cydraddoldeb, Emma Bennett, a'i thîm trwy flwch post y Gangen Cydraddoldeb – cangencydraddoldeb@llyw.cymru.

Rwy'n cydnabod ein bod mewn cyfnod anodd, ac felly bod pobl yn bryderus am wahanol agweddau ar effaith y feirws a llawer yn teimlo'n fregus tu hwnt. Rydym wedi bod yn symud ac yn ail-flaenoriaethu adnoddau i ymateb yn gyflym ac yn briodol i gefnogi ein cymunedau ac, yn enwedig, yr aelodau mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni ddylai unrhyw un orfod goddef rhagfarn neu droseddau casineb ac mae'n chwith gennyf glywed am ddigwyddiadau o'r fath yn cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rwy'n annog aelodau o'r gymuned i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau fel hyn. Os oes unrhyw un yn y gymuned yn dyst i, neu'n cael gwybod am unrhyw ymddygiad bygythiol neu ddigwyddiadau'n ymwneud â throseddau casineb, gallant adrodd arnynt drwy gysylltu â'r heddlu neu'r Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth sy'n cael ei rhedeg gan Cymorth i Ddioddefwyr.

Mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi hyfforddi staff a gwirfoddolwyr arbennig a all ddarparu cymorth sydd wedi'i deilwra i bobl sydd wedi profi achosion o gasineb. Gellir cysylltu â nhw dros y ffôn neu drwy e-bost. Mae'r gwasanaeth am ddim, yn gyfrinachol ac ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

Gellir cysylltu â'r gwasanaeth ar y ffôn: 0300 3031 982 neu ar e-bost: Hate.CrimeWales@victimsupport.org.uk neu ar-lein yn https://www.reporthate.victimsupport.org.uk/

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i baratoi Cymru ar gyfer Covid 19. Rydym yn cydweithio â'r tair gweinyddiaeth arall yn y Deyrnas Unedig, y gwasanaethau cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ledled Cymru, er mwyn cynllunio'r ymateb a chymorth i liniaru'r effaith. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn gweithio'n galed iawn ac yn paratoi i roi gofal ac i drin pobl sy'n mynd i fod yn wael iawn o ganlyniad i'r feirws. Rydym yn cydnabod ac yn cymeradwyo personél y GIG yn benodol, llawer ohonynt o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, sy'n **gweithio'n ddiflino** gyda'u cydweithwyr o gymunedau lleol ledled Cymru i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd.

I gael yr wybodaeth a'r cyngor diweddaraf, ewch i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sef https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/

Er mwyn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau gan Lywodraeth Cymru, ac am unrhyw gyngor, ewch i'n gwefan bwrpasol, sef https://llyw.cymru/coronafeirws.

Os ydych yn dymuno gwirfoddoli i gynnig unrhyw fath o gymorth dros y cyfnod hwn, gallwch gysylltu â'ch Cyngor Gwirfoddol lleol, neu mae croeso i chi gofrestru ar borthol Gwirfoddoli Cymru - https://volunteering-wales.net (mae'r wefan hon bellach yn cynnwys categori ar gyfer Covid-19 (Coronavirus) a therm chwilio y gall pobl ei ddefnyddio).

Os oes angen cymorth ychwanegol ar unigolion oddi wrth y gwasanaethau gwirfoddoli, gallant gysylltu â'r Canolfannau Gwirfoddoli yn eu hardal yn uniongyrchol. Mae'r manylion cyswllt ar: https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

Yr wythnos hon lansiodd y Prif Weinidog ymgyrch newydd ynglŷn â sut i helpu pobl sy'n aros adref oherwydd coronafirws. Mae'r ymgyrch Edrych ar ôl ein Gilydd yn canolbwyntio ar y pethau bychain y gallwn ni i gyd eu gwneud i helpu ein gilydd yn ystod y pandemig. Mae'r wefan yn rhoi canllawiau ymarferol ar sut y gellir cyflawni tasgau bob dydd yn ddiogel, fel mynd ar neges neu gadw mewn cysylltiad, heb ddod i gysylltiad corfforol er mwyn lleihau'r perygl o ddal y coronafirws. Byddwn yn eich annog i rannu'r wybodaeth hon ag eraill. Gweler: https://gov.wales/safe-help

Mae sefydliadau fel eich sefydliad chi yn hollbwysig er mwyn sicrhau ein bod yn gallu trosglwyddo'r negeseuon cywir i'r holl gymunedau, ac rwy'n diolch i'r holl aelodau unwaith eto am eu cefnogaeth mewn cyfnod nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen.

Yn gywir,

Jane Hutt AC/AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip